
2015
Archwiliad
Cyfryngau
Cymru IWA
Crynodeb
Gweithredol

iwa



Mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn felin drafod annibynnol. Ein hunig ddi-ddordeb yw gweld Cymru yn ffynnu fel gwlad i weithio a byw ynddi. Rydym yn elusen annibynnol, a chawn ein hariannu gan amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion. Darparwn sylfaen ar gyfer dadl ddeallus a gweithiwn gyda'n haelodau i greu syniadau ar gyfer newid ymarferol yn y pedwar maes sydd yn flaenoriaeth inni: yr economi, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, a llywodraethu.

I gael mwy o wybodaeth am y Sefydliad Materion Cymreig, ein gwaith polisi, a sut i ymaelodi, naill ai fel unigolyn neu gefnogwr corfforaethol, cysylltwch â:

IWA - Institute of Welsh Affairs
56 Stryd James, Bae Caerdydd, CF10 5EZ

ffôn: 029 2048 4387
e-bost: wales@iwa.org.uk
www.iwa.org.uk
www.clickonwales.org

Hawlfraint: IWA Tachwedd 2015



Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

Ers cynnal awdit cyfryngau cyntaf y Sefydliad Dros Faterion Cymreig yn 2008, y prif ddatblygiadau fu'r twf parhaus mewn cyfathrebu ar-lein ac argaeledd cynyddol dulliau digidol o gyfathrebu ar draws Cymru, mewn gwrthgyferbyniad gyda'r cyfngiad difrifol a gafwyd mewn ariannu cynnwys perthynol i Gymru. Mae hi'n dod yn fwy anodd i Gymru fod yn weladwy mewn byd cyfryngol mwy cymhleth a thameidiog.

Mae allbwn a gwariant ar deledu yn yr iaith Saesneg gan y BBC ac ITV wedi gostwng ymhellach, ac felly'n anochel mae'r ystod o raglenni wedi culhau. Mae S4C wedi dioddef y toriad cyntaf erioed yn ei hariannu, gan golli chwarter o'i chyllid. Cafwyd cyfuniad pellach ym mherchnogaeth radio masnachol, gan olygu'n arferol, ond nid o hyd, y ceid gostyngiad mewn allbwn o ffynhonell lleol. Gwelir cyfuniad hefyd ym mherchnogaeth papurau newydd Brodorol Cymreig. Yn gyffredinol mae Cymru'n profi methiant y farchnad.

Dechreuodd y gostyngiad mewn gwariant ar raglenni teledu yng Nghymru cyn argyfwng bancio 2007-08 a'r dagfa ar wariant cyhoeddus a'i ddilynodd. Mae'r cyfanswm a wariwyd gan BBC a ITV ar deledu yn yr iaith Saesneg yng Nghymru wedi gostwng yn gyson ers 2002 ac mae'r gostyngiad hwnnw wedi cyflymu ar ôl i BBC Wales basio ei lefel uchaf o wariant o £26.8m yn 2005-06. Hyd at 2006, roedd y dirywiad yn waeth yng Ngogledd Iwerddon (-23%) nac yng Nghymru (-18%) na'r Alban (-3%). Ers hynny, Cymru welodd y gostyngiad mwyaf:

- i)* Mae darpariaeth rhaglenni ITV Wales tu hwnt i newyddion wedi dirywio ymhellach, yn dilyn cytundeb gyda Ofcom yn 2009, o 3 awr yr wythnos i 1.5 awr - mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr gyda'r gwasanaeth ITV annibynol yn yr Alban (STV) sydd wedi cynyddu ei allbwn.
- ii)* Mae gwariant BBC Wales ar deledu yn yr iaith Saesneg wedi gostwng i £20.2m yn 2014-15, sef gostygiad o 25% o £26.8m ers 2005-06, a bydd yn gostwng eto yn 2015.
- iii)* Gwelwyd gostygiad o 27% yn oriau gwasanaeth teledu BBC Wales yn yr iaith Saesneg ers 2006-07, er bod llawer o hwn o ganlyniad i dorri'r gwasanaeth BBC2W byr-hoedlog yn 2009. Cafwyd gostyngiad o 15% mewn oriau rhwng 2008 a 2014.
- iv)* Wedi Etholiad Cyffedinol 2010, fe wnaeth S4C ddiodeff toriad o 24% yn ei chyllido canolog, gyda'r rhan fwyaf o'i ariannu'n cael ei drosglwyddo o'r DCMS i Ymddiriedolaeth y BBC (a ffi'r Drwydded Deledu). Mae'r gwariant ar y 10 awr yr wythnos statudol a roddi i S4C gan BBC Wales ers sefydlu'r sianel yn 1982 eisoes yn lleihau o £23.5m yn 2010-11 tuag at yr £19.4m a gynllunit yn 2016-17. Mae dyfodol gwariant gweddilliol y DCMS ar S4C - sydd ar hyn o bryd ychydig yn fwy na £6m. - yn parhau i fod yn ansicr.

Mae'r cyfngiad hyn wedi cael effaith arbennig o ddifrifol ar faint o gynnwys teledu a gynhyrchir ar gyfer y gynulleidfa yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn o bryder mawr gan fod angen edrych ar blwraliaeth, nid yn unig yn nhermau'r nifer o ddarparwyr, ond hefyd yn nhermau ystod, ffurf, pwrpas a thôn y rhaglenni a'r lleisiau a glywir ynddyn nhw. Nid Newyddion a materion cyfoes yw'r unig prism ddylai wrthdorri ac adlewyrchu cymdeithas Cymru.

Yn 2010 a 2015, gorfododd Lywodraeth y DG gytundebaucaled ynglŷn â'r ffi drwydded ar y BBC sydd yn golygu cwtogi sylweddau mewn termau go iawn. Mae hyn yn sicr o figwth BBC Wales ac S4C. Rydym yn cymeradwyo'r galw gan Brif Weinidog Cymru y dylai'r BBC fuddsoddi £30m yn ychwanegol yn ei gwasanaethau i Gymru, a dylid cadw lefel ariannu S4C. Dylai S4C a BBC2 fod ar gael mewn manylder uwch (HD) hefyd.

Nid yw datganoli cynhyrchiadau rhwydwaith y BBC a chreu canolfan cynhyrchu drama yng Nghaerdydd wedi golygu cynnydd ym mhroffil Cymru a'i phortreadu ym maes drama teledu. Dylid mynd i'r afael a chyfeirio at hyn drwy ddatganoli peth ariannu rhwydwaith i BBC Wales.

Parha'r BBC i fod yn sefydliad sydd wedi ei ganoli'n fawr yn y modd y bydd hi'n gwneud penderfyniadau. Dydy hi heb addasu'n llwyr eto i siâp newydd y Deyrnas Gyfunol. O fewn y BBC mae'r offer yn bodoli eisoes i greu strwythur mwy ffederal a allai ganiatau gwneud mwy o benderfyniadau ac atebolrwydd lleol o fewn pob gwlad, tra'n parhau i gadw undod o ran amcan a gwerthoedd sydd yn hanfodol ar gyfer cyflenwi ei gwasanaethau ar draws y DG. Nid gêm swm sero mo hwn.

Erbyn hyn, cyfathrebu ar-lein yw'r flaenoriaeth i bapurau newydd ar gyfer y prif grwpiau yng Nghymru, wrth i gylchrediad wedi'i argraffu barhau i ddisgyn. Fodd bynnag mae cylchrediad wedi'i argraffu yn parhau i fod yn bwysig fel prif ffynhonell refeniw hysbysebu. Bu cynnydd sylweddol yn y modd y ceir mynediad at newyddion ar lwyfannau digidol grwpiau'r papurau newydd, ond gwelir gostyngiad parhaus yn y nifer o ohebwyr a gaiff eu cyflogi. Mae WalesOnline wedi dod yn brif lwyfan cenedlaethol ar-lein ar gyfer newyddion tu allan i'r BBC. A ddylai'r BBC wneud ei chynnwys sain a fideo ar gael i'w ddefnyddio ar safleoedd ar-lein papurau newydd lleol yng Nghymru? Mae angen hybu ac annog papurau newydd Gor-leol.

Ceir achos gref dros gynnal adolygiad trylwyr o gyfryngau lleol gan gynnwys papurau newydd lleol a gorleol, radio lleol a chymuned. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Panel Cyngori'r Cyfryngau er mwyn sicrhau bod datblygiadau yn y cyfryngau yng Nghymru'n cael eu monitro.

Argymhellion

Llywodraeth Cymru a'r Cyfryngau

- 1 Dylai Llywodraeth Cymru ailgyfansoddi Panel Ymgynghorol y Cyfryngau o dan gadeiryddiaeth annibynol, a chanddi orchwyl i fonitro'r tueddiadau yn y cyfryngau yng Nghymru ac i gomisiynu astudiaethau fel bod angen.
- 2 Dylai'r panel weithio gydag adranau academiaidd perthnasol er mwyn sicrhau ymagwedd cydlynus tuag at fonitro cydoesol ac ymchwil mewn i ddatblygiadau yn y cyfryngau.

Teledu: Yr Iaith Saesneg

- 3 Wrth asesu anghenion Cymreig, rhaid edrych ar blwraliaeth yn nhermau ystod, ffurf pwrpas a thôn y rhaglenni a'r lleisiau a fynegir ynddynt yn ogystal â'r nifer o ddarparwyr. Nid Newyddion a materion cyfoes yw'r unig brism ddylai wrthdorri ac adlewyrchu ein cymdeithas.
- 4 Dylid cynyddu'r buddsoddiad yng ngwasanaethau'r BBC yng Nghymru gan o leiaf £30m. y flwyddyn, yn ddelfrydol drwy gynyddu ffi'r drwydded ond os na, yna drwy ailflaenoriaethu ariannu'r BBC.

Teledu: yr Iaith Gymraeg

- 5 Rhaid cynnal ariannu S4C os nad yw am gael ei wthio mewn i gylch dieffig o ddirywiad.
- 6 Rhaid gwarchod annibyniaeth golygyddol, gweithredol a rheoleiddiol S4C, nid yn unig eir ei budd ei hun ond oherwydd bod ei hanibyniaeth o fudd i ecoleg greadigol Cymru gyfan.
- 7 Fodd bynnag, rhaid i S4C a BBC Cymru uwchafu eu cydweithio ar draws radio a theledu, heb golli hynodrwydd eu gwasanaethau.
- 8 Dylai'r Ysgrifenydd Gwladol ymgynghori ar yr ystod o feini prawf y mae'n bwriadu eu gosod wrth weithredu ei ddyletswydd o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 er mwyn sicrhau ariannu digonol ar gyfer gwasanaeth S4C. Dylai'r meini prawf gynnwys yr angen i drosglwyddo i ddarlledu Manyllder Uwch.

Teledu Rhwydwaith

- 9 Dylai'r BBC greu system ariannu a chomisiynu sydd yn datganoli cyfran sylweddol o ariannu'r rhwydwaith, fel bod comisiynwyr yn y cenhedloedd yn gallu cael y rhyddid i ddod â phersbectifau diwyllianol eraill i'r amlwg, i wella 'portead' ac felly amrywio'r allbwn.

- 10 Dylai Channel 4 osod ei adroddiad blynyddol o flaen Cynulliad Cendlaethol Cymru, gan gynnwys manylion gweithredu ei gwota 'allan o Loegr' ymhob un o'r cenhedloedd eraill. Dylai Llywodraeth Cymru neu Bwyllgor y Cynulliad gyflwyno ymateb.

HD yng Nghymru

- 11 Dylai BBC2 Cymru/Wales gael ei drosglwyddo fel gwasanaeth HD cyn gynted â bo modd.
- 12 Rhaid galluogi S4C i ddarparu ei gwasanaeth darlledu mewn manylder uchel. Dylai'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Y Cyfryngau a Chwaraeon gymryd y factor hwn i ystyriaeth wrth ymarfer ei ddyletswydd o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 er mwyn sicrhau ariannu digonol ar gyfer gwasnaeth S4C.

Radio

- 13 Dylid asesu effeithiolrwydd signal DAB mewn gwahanol rannau o'r DG cynbod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud i ddiffodd FM neu, yn wir, amledd tonfedd ganol BBC Radio Wales. Ni ddylid gwneud hyn ar sail nerth cyfartalog y signal ar draws y DG.
- 14 Dylid datganoli rheoleiddio radio yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i Bwyllgorau Ymgynghorol Ofcom yn y cenhedloedd, gan weithredu o dan ambarel cyffredinol Ofcom.
- 15 Dylid ailystyried ymollwng gofynion cynnwys lleol ar gyfer gwasnaethau DAB.
- 16 Dylai Llywodraeth Cymru ac Ofcom gydweithio er mwyn chwilota dichonoldeb Consortiwm Newyddion radio ar gyfer Cymru, sydd wedi'i ariannu'n annibynol. Dylai hyn ystyried cyfranogiad gan orsafoedd masnachol a chymunedol yn ogystal â safleodd newydd gorleol.
- 17 Dylai'r BBC ddarparu gwasanaeth newyddion optio allan ar gyfer BBC Radio 1 a BBC Radio 2.
- 18 Dylid cysegru peth o'r gronfa ychwanegol ar gyfer BBC Wales tuag at gryfhau ei allbwn radio a chreu cymysgedd hyblyg o allbwn radio sydd ar-alw.

Ar-lein

- 19 Dylai'r Llywodraeth gefnogi cynnig y BBC ar gyfer gwasaneth ar-lein rhyngweithiol ar gyfer Cymru.
- 20 Dylai'r BBC greu gwasanaeth iPlayer ar wahân i BBC Wales y byddai modd ei gyrraedd o dudalen hafan prif safle'r iPlayer hefyd. Dylid gwneud hwn fel rhywbeth ar wahân a/neu fel rhywbeth sydd wedi'i integreiddio gyda'r gwasanaeth rhyngweithiol sydd ar-lein. Dylai hyn weithredu fel cydgasglwr ar gyfer yr holl gynnwys a wneir yn benodol ar gyfer y cynulleidfaoedd Cymreig.

- 21 Dylai'r Llywodraeth a Ofcom chwilota opsiynau ar gyfer ffynonellau o gyllid newydd allai gefnogi cronfa cynhyrchu dadleuol y byddai modd cael mynediad at ei allbwn drwy'r app Darlledwr Gwasanaeth Cyhoeddus.
- 22 Dylid mabwysiadu ymagwedd tebyg ar gyfer radio.
- 23 Dylai Llywodraeth y DG a rhai'r gwledydd datganoledig, ynghyd â Chomisiwn Ewrop, gychwyn ar adolygiad brys o reoliadau a deddfwriaeth cyfredol er mwyn sicrhau bod gwneuthurwyr rhyngwladol yn gallu gwarantu cyfle ac amodau cyfartal i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y lefel genedlaethol.
- 24 Yn gyfnewid am ennill amlygrwydd ar app ITV Player drwy gyfrwng Teledu. Clyfar, dylai ITV plc, ynghyd â UTV ac STV, gael eu gorchymyn i hybu a rhoi mwy o amlygrwydd i'w raglenni ar gyfer eu cenedloedd a'u rhanbarthau.
- 25 Dylid annog cydgyfeiriant drwy gynnaal swgrs pellach rhwng cyhoeddwydwy llyfrau a chyhoeddwyd fideo yng Nghymru. Byddai cyd-drefnu rhwng BAFTA Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a Chaerdydd Creadigol yn awgrymu fod hyn yn un llwybr y gellid ei ddilyn er mwyn cyflawni hyn.

Llywodraethiant

- 26 Dylid rhannu'r cyfrifoldeb am faterion yn ymwneud â darlledu a'r cyfryngau rhwng Llywodraeth y DG a'r gweinyddiaethau datganoledig. Gwrthodwn y syniad na ddylid datganoli unrhywbeth yn y maes yma onibai fod popeth yn cael ei ddatganoli.
- 27 Dylai penodiad Aelod Cymreig o Ymddiriedolaeth y BBC (Neu'r corff fydd yn cymryd ei le) fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Gweinidog Cymreig perthnasol – a'i wneud felly'n benodiad ar y cyd gyda'r DCMS.
- 28 Dylai penodiad cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru, a Gogledd Iwerddoni Fwrdd Ofcom fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y gweinidogion perthnasol yn y gwledydd datganoledig – a'i wneud felly'n benodiad ar y cyd gyda'r DCMS.
- 29 Dylid cael gwared â'r Cynghorau Cynulleidfa presennol yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a rhoi Ymddiriedolaethau Darlledu Cenedlaethol yn eu lle, fyddai'n gweithredu o dan ymbarel Ymddiriedolaeth y BBC. Dylid gweithredu ysbryd a bwriad yr argymhelliad hwn beth a pha bynnag yw'r newidiadau a wneir i lywodraethiant a rheoleiddiad y BBC yn ganolog.
- 30 Dylai'r Ymddiriedolaethau Darlledu Cenedlaethol hyn fod yn gyfrifol am ffurf a chyflenwad trwydded wasanaeth genedlaethol, fyddai'n amwgrymu eu bod yn gyfrifol am bolisi, cynnwys, a dyraniad adnoddau am yr holl wasanaethau a gyflenwir ar gyfer cynulleidfaedd eu gwledydd perthnasol.
- 31 Dylai fod yn ofynnol ar y BBC, Awdurdod S4C, ITV Wales plc a Channel 4 i gyflwyno adroddiadau blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sôn hefyd am unrhyw weithredoedd ganddyn nhw sydd yn berthnasol i Gymru. Dylai Llywodraeth Cymru neu Bwyllgor yn y Cynulliad lunio ymateb.

Newyddiaduraeth argraffiedig ac ar-lein

- 32 Dylai Llywodraeth Cymru ac Ofcom gomisiynu astudaieth ar y cyd o ddyfodol y cyfryngau lleol yng Nghymru er mwyn cynnwys radio masnachol a chymunedol, papurau newydd lleol a safleoedd gor-leol. Dylai'r astudiaeth gynnwys ystyriaeth o:
- Dyfodol darlledu FM a'r Donfedd Ganol mewn amgylchedd DAB
 - Gofynion cynnyws lleol ar gyfer radio DAB
 - Y berthynas rhwng radio masnachol a chymunedol a'r posibilrwydd o fodelau cymysg
 - Dyfodol y Papurau Bro
 - Effaith debygol argymhellion y BBC ar gyfer rhannu adnodd gohebyddol
- 33 Dylai Llywodraeth Cymru greu cronfa her ar gyfer datblygu gwasnaethau newyddion ar-lein lleol a weinyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru neu Gyngor Llyfrau Cymru.
- 34 Dylai'r BBC wneud ei gynnwys fideo ac awdio lleol a rhanbarthol ar gael i bapurau newydd.

Cyflogaeth a hyfforddiant

- 35 Dylai S4C ailddechrau monitro cyfansoddiad ei staff ar unwaith.
- 36 Dylai BBC, ITV ac S4C gytuno ar ddull o fonitro cyfansoddiad staff ar draws y sector a'i weithredu fel rhan o'u gweithdrefnau comisiynu safonol.
- 37 Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori gyda chyflogwyr yn y sector a dod i gytundeb ar ffordd o gyd-fuddsoddi mewn sgiliau a chefnogi Creative Skillset Cymru drwy ariannu craidd a/neu broject.